

## Nodyn atodol yr Arolygydd ar gyfer gwrandawriad 9: Echdynnu glo / diogelu

1. Ar ôl ystyried papur y Cyngor mewn ymateb i Bwynt Gweithredu 8.1 (ED047; 'Papur y Cyngor') mae fy mhryderon yn parhau ynghylch fframwaith mwynau'r Cynllun fel y cynigir ei ddiwygio ar hyn o bryd. Gan hynny rwyf yn bwriadu dychwelyd at y mater hwn yng ngwrandawriad 9.
2. Nodaf y cyfiawnhad a ddarparwyd ym mhapur y Cyngor am ddiogelu'r prif adnodd glo o ran gofynion is-ranbarthol am lo rhwym mewn prosesau diwydiannol. Nid oes gennyf unrhyw ymholiadau mewn perthynas i'r rhan honno o bapur y Cyngor. Fodd bynnag, rwyf yn cwstiyntu pendantsrwydd y Cyngor fod diogelu'r prif adnodd glo yn cael ei gyfiawnhau ar sail diogelwch ynni, gan y byddai gwneud hynny o leiaf yn gwrthdaro â hierarchaeth ynni cenedlaethol a osodwyd allan ym Mholisi Cynllunio Cymru a'r datganiad penodol ym mharagraff 5.10.13 PCC fod Llywodraeth DU yn ceisio graddol ddiddymu cynhyrchu glo erbyn 2025.
3. O ganlyniad f'asesiad cyfredol yw fod cyfiawnhad y Cyngor dros ddynodi a diogelu'r prif adnodd glo yn berthnasol i'r defnydd o lo mewn prosesau diwydiannol a thebyg. Mae'r tabl isod yn darparu arsylwadau penodol ar Newidiadau i Faterion sy'n Codi gan y Cyngor (MAC) yn unol â hynny.

Cyf y cynllun	MAC arfaethedig y Cyngor	Sylw'r Arolygydd	Awgrym yr Arolygydd
Para 6.8.94	"Ystyrir fod hyn wedi ei gyfiawnhau o dderbyn ansawdd uchel a chymhwyso arbenigol o'r prif adnodd glo sy'n digwydd yn y Fwrdeistref Sirol, a all fod ei angen gan genedlaethau'r dyfodol, yn enwedig os yw technoleg neu diogelwch ynni angen newid."	Fel y nodir uchod rwyf ar hyn o bryd o'r farn y byddai diogelu'r prif adnodd glo ar gyfer diogelwch ynni i'r gwrthwyneb â pholisi cenedlaethol gan na fyddai'n berthnasol i 'amgylchiadau unigol'.	Dileu "yn enwedig os yw technoleg neu anghenion diogelu ynni yn newid" o'r MAC arfaethedig.
Para 6.8.95; troednodyn 4	"Yn achos prif adnoddau glo .....[ayb]... ...Byddai angen i unrhyw gynigion gael eu cyfiawnhau'n llwyr yng nghyd-destun polisi cenedlaethol."	Mae'r testun newydd hwn yn cyflwyno gorchmynion polisi cenedlaethol i'r cyfiawnhad lleol dros ddiogelu'r prif adnodd glo. Mae hyn yn ddryslyd ac, mewn perthynas â diogelu ynni, ymddengys ei fod yn croestynnu yn erbyn PCC.	Dileu'r brawddegau hyn a'r troednodyn.
Para 6.8.104	Paragraff cyfan (testun gwreiddiol a MAC arfaethedig).	Nid yw'r paragraff hwn yn datgan y glir y byddai cynigion am echdynnu glo angen cael eu cyfiawnhau yng nghyd-destun un ai: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Anghenion lleol/rhanbarthol (PCC para 5.14.32),</li> <li>• budd diogelwch y cyhoedd (PCC para 5.10.15), or</li> <li>• diogelwch ynni cenedlaethol (PCC para 5.10.14).</li> </ul>	Ailstrwythuro'r para hwn i ddynodi'r tri amgylchiad ar wahân a allai gyfiawnhau echdyniad glo.
Polisi EcW13	"...ac yn achos prif adnoddau glo, ceir amgylchiadau cwbl	Gan fod y Cyngor wedi ceisio cyfiawnhau y dynodiad diogelu'n seiliedig ar anghenion	Diwygio'r meini prawf

	eithriadol i gyfiawnhau ei echdynnu blaenorol"	lleol/rhanbarthol, ymddengys i mi y byddai echdyniad blaenorol ond yn cael ei ganiatáu ble yr arddangoswyd yn gyntaf fod, yn achos glo, y gellid ei echdynnu'n ddichonadwy a'i ddefnyddio mewn prosesau ac eithrio cynhyrchu ynni.	yn unol â hynny.
Para 6.8.112 a throednodyn 7	"Bydd angen i gynigion am echdyniad blaenorol o brif adnoddau glo arddangos yn glir yr amgylchiadau eithriadol sy'n cyfiawnhau'r echdynnu blaenorol o'r adnodd yn ôl gofyniad polisiau EcW11, EcW13 a pholisi cenedlaethol"	Fel uchod – dylai unrhyw echdyniad blaenorol fod yn berthnasol i ddiben y dynodiad; sydd yn fy marn i'n berthnasol i anghenion di-ynni lleol/rhanbarthol (PPW para 5.14.32) yn hytrach na'r achosion eraill 'cwbl eithriadol' a amlinellir mewn polisi cenedlaethol.	Dileu cyfeiriadau at bolisi EcW11 a PPW para 5.10.14 a 5.10.15.

4. Bwriedir i'r arsylwadau a'r awgrymiadau uchod hwyluso trafodaethau yn y gwrandawriad. Byddai'n ddefnyddiol pe byddai'r Cyngor yn gallu ystyried ei ymateb i bob un o'r rhain cyn y gwrandawriad.
5. Pe byddai'r Cyngor am wneud tabl yn cynnwys ymateb ysgrifenedig cryno yn y gwrandawriad neu cyn y gwrandawriad byddwn yn hydrin ynghylch hynny.

*Paul Selby*

12 Awst 2019